OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 516 (Cy. 153) (C. 17)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Diwygio) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 ("Gorchymyn Cychwyn Rhif 3") a Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 ("Gorchymyn Cychwyn Rhif 4") sy'n dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf"). Mae'r Gorchmynion Cychwyn hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo plant ag anghenion addysgol arbennig penodol a nodwyd i'r gyfraith newydd a nodir yn y Ddeddf. Maent yn cynnwys diffiniadau o "y gyfraith newydd" a "yr hen gyfraith" (gweler erthygl 1).

Mae'r Gorchymyn hwn yn mewnosod erthyglau 16A, 16B ac 16C yng Ngorchymyn Cychwyn Rhif 3 (erthygl 2). Mae erthygl 16A yn gymwys i blentyn sy'n peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir yr oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ynddi ar 1 Medi 2021 ("yr ysgol gyntaf"). Bydd y plentyn yn trosglwyddo i'r gyfraith newydd ar y dyddiad y mae'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol gyntaf.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 516 (W. 153) (C. 17)

# EDUCATION, WALES

# The Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (Commencement No. 3 and No. 4 and Transitional and Saving Provisions) (Amendment) Order 2021

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order amends the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (Commencement No. 3 and Transitional and Saving Provisions) Order 2021 ("the No 3 Commencement Order") and the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (Commencement No. 4 and Transitional and Saving Provisions) Order 2021 ("the No 4 Commencement Order") which bring into force provisions of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 ("the Act"). These Commencement Orders make provision for transferring children with certain identified special educational needs to the new law set out in the Act. They contain definitions of "the new law" and "the old law" (see article 1).

This Order inserts articles 16A, 16B and 16C into the No 3 Commencement Order (article 2). Article 16A applies to a child who ceases to be a registered pupil at the maintained school at which the child was a registered pupil on 1 September 2021 ("the first school"). The child will transfer to the new law on the date that the child ceases to be a registered pupil at the first school.

Mae erthygl 16B yn gymwys i blentyn sydd hefyd yn dod yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad arall (sydd wedi ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano. Bydd y plentyn yn trosglwyddo i'r gyfraith newydd ar y dyddiad y daw'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad arall.

Mae erthygl 16C yn gymwys i blentyn sy'n dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 15 o'r Ddeddf. Bydd y plentyn yn trosglwyddo i'r gyfraith newydd ar y dyddiad y daw'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 4 drwy roi erthygl 8 newydd yn lle'r un bresennol sy'n caniatáu i blentyn ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd neu riant y plentyn hwnnw wneud cais i'r awdurdod lleol priodol i'r gyfraith newydd fod yn gymwys i'r plentyn.

Article 16B applies to a child who also becomes a registered pupil or an enrolled student at another institution (registered at more than one setting) and for whom a local authority in Wales is responsible. The child will transfer to the new law on the date the child becomes a registered pupil or an enrolled student at another institution.

Article 16C applies to a child who becomes looked after by a local authority within the meaning of section 15 of the Act. The child will transfer to the new law on the date that the child becomes looked after by the local authority.

This Order amends the No 4 Commencement Order by substituting a new article 8 which allows a child with identified special educational needs or that child's parent to make a request to the appropriate local authority for the new law to apply to the child.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 516 (Cy. 153) (C. 17)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Diwygio) 2021

*Gwnaed* *28 Ebrill 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 100(3) a (4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Diwygio) 2021.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021**

**2.** Ar ôl erthygl 16 o Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**2**) mewnosoder—

> **"16A.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn a oedd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2021—

(**1**) 2018 dccc 2.
(**2**) O.S. 2021/381 (Cy. 120) (C. 13).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 516 (W. 153) (C. 17)

# EDUCATION, WALES

# The Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (Commencement No. 3 and No. 4 and Transitional and Saving Provisions) (Amendment) Order 2021

*Made* *28 April 2021*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 100(3) and (4) of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(**1**), make the following Order:

**Title**

**1.** The title of this Order is the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (Commencement No. 3 and No. 4 and Transitional and Saving Provisions) (Amendment) Order 2021.

**Amendment of Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (Commencement No. 3 and Transitional and Saving Provisions) Order 2021**

**2.** After article 16 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (Commencement No. 3 and Transitional and Saving Provisions) Order 2021(**2**) insert—

> **"16A.**—(1) This article applies to a child who had identified special educational needs on 1 September 2021—

(**1**) 2018 anaw 2.
(**2**) S.I. 2021/381 (W. 120) (C. 13).

(a) sy'n peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol gyntaf,

(b) nad oes cais wedi ei wneud am hysbysiad CDU nac hysbysiad dim anghenion ar ei gyfer, ac

(c) y mae'r hen gyfraith yn gymwys mewn perthynas ag ef.

(2) Ar y dyddiad y mae'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol gyntaf—

(a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a

(b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.

(3) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig" yw bod enw'r disgybl wedi ei ddileu o gofrestr dderbyn yr ysgol yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**1**);

(b) ystyr "ysgol gyntaf" yw'r ysgol a gynhelir yr oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ynddi ar 1 Medi 2021.

**16B.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn a oedd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2021—

(a) sy'n dod yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad arall (a bod y sefydliad hwnnw yn ysgol neu'n sefydliad yn y sector addysg bellach),

(b) y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano,

(c) nad oes cais wedi ei wneud am hysbysiad CDU nac hysbysiad dim anghenion ar ei gyfer, a

(d) y mae'r hen gyfraith yn gymwys mewn perthynas ag ef.

(2) Ar y dyddiad y daw'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad arall—

(a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a

(b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.

(**1**) O.S. 2010/1954 (Cy. 187).

(a) who ceases to be a registered pupil at the first school,

(b) for whom a request for an IDP notice or a no needs notice has not been made, and

(c) in relation to whom the old law applies.

(2) On the date that the child ceases to be a registered pupil at the first school—

(a) the new law applies in relation to the child, and

(b) the old law ceases to apply in relation to the child.

(3) In this article—

(a) "ceases to be a registered pupil" means that the pupil's name is deleted from the admission register of the school in accordance with the Education (Pupil Registration) (Wales) Regulations 2010(**1**);

(b) "first school" means the maintained school at which the child was a registered pupil on 1 September 2021.

**16B.**—(1) This article applies to a child who had identified special educational needs on 1 September 2021—

(a) who becomes a registered pupil or an enrolled student at another institution (that institution being a school or institution in the further education sector),

(b) for whom a local authority in Wales is responsible,

(c) for whom a request for an IDP notice or a no needs notice has not been made, and

(d) in relation to whom the old law applies.

(2) On the date that the child becomes a registered pupil or an enrolled student at another institution—

(a) the new law applies in relation to the child, and

(b) the old law ceases to apply in relation to the child.

(**1**) S.I. 2010/1954 (W. 187).

**16C.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn a oedd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2021—

(a) sy'n dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 15 o'r Ddeddf,

(b) nad oes cais wedi ei wneud am hysbysiad CDU nac hysbysiad dim anghenion ar ei gyfer, ac

(c) y mae'r hen gyfraith yn gymwys mewn perthynas ag ef.

(2) Ar y dyddiad y daw'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 15 o'r Ddeddf—

(a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a

(b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.".

**16C.**—(1) This article applies to a child who had identified special educational needs on 1 September 2021—

(a) who becomes a child looked after by a local authority within the meaning of section 15 of the Act,

(b) for whom a request for an IDP notice or a no needs notice has not been made, and

(c) in relation to whom the old law applies.

(2) On the date that the child becomes a child looked after by a local authority within the meaning of section 15 of the Act—

(a) the new law applies in relation to the child, and

(b) the old law ceases to apply in relation to the child.".

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021**

**3.** Yn lle erthygl 8 o Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**1**) rhodder—

**"Hawl i ofyn am gael trosglwyddo i'r gyfraith newydd**

**8.**—(1) Caiff plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2021, neu riant y plentyn hwnnw, wneud cais i'r person priodol i'r gyfraith newydd fod yn gymwys i'r plentyn hwnnw.

(2) Mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn ar y dyddiad y daw'r cais i law.

(3) Mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn ar y dyddiad hwnnw.

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr "person priodol" yw—

(a) yr awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am y plentyn,

(**1**) O.S. 2021/383 (Cy.121) (C. 14).

**Amendment of Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (Commencement No. 4 and Transitional and Saving Provisions) Order 2021**

**3.** For article 8 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (Commencement No. 4 and Transitional and Saving Provisions) Order 2021(**1**) substitute—

**"Right to ask to transfer to new law**

**8.**—(1) A child who on 1 September 2021 has identified special educational needs, or that child's parent, may make a request to the appropriate person that the new law applies to that child.

(2) The new law applies in relation to the child on the date that the request is received.

(3) The old law ceases to apply in relation to the child on that date.

(4) In this article, the "appropriate person" means—

(a) the local authority in Wales which is responsible for the child,

(**1**) S.I. 2021/383 (W. 121) (C. 14).

(b) pan na fo awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y plentyn, awdurdod lleol yng Nghymru y mae'r ysgol a gynhelir neu'r uned cyfeirio disgyblion y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig ynddi yn ei ardal.".

(b) where a local authority in Wales is not responsible for the child, a local authority in Wales in whose area the maintained school or the pupil referral unit at which the child is a registered pupil is located.".

*Kirsty Williams*

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
28 Ebrill 2021

Minister for Education, one of the Welsh Ministers
28 April 2021

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39067-4

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/516